

Centre for Photonics Expertise (CPE)

Project Description

Four Welsh Universities have come together, as partners, in a three year, WEFO/ERDF funded Project, combining their expertise in photonics to provide innovative solutions to businesses in the West Wales and Valleys region. It will increase capacity in photonics and the three targeted areas of research and attract photonic-related inward investment.

Delivery Model

The delivery model relies on R&D collaborations using leading research expertise from Glyndŵr, Aberystwyth, Bangor and/or USW through a range of projects designed with the companies' needs in mind. There is no cost to the companies as the academic input is supplied free, from whichever University is best suited to meet those needs, provided that there is a comparable time input commitment from the company concerned. Initial contact will be through a Business Development Manager to set up a potential project.

Geographical Coverage

The project will benefit local authority areas across the West Wales and the Valleys programme area.

Specific Targets

120 partners will co-operate in research projects, of whom at least 60 enterprises will receive non-financial support, (40 supported to introduce new to the firm products or processes, 20 supported to introduce new to the market products or processes). Where CPE criteria cannot be fulfilled, referral to other sources of support - Welsh Government, WEFO or the

private sector will be offered and recorded. Special consideration will be accorded to ensure that work undertaken will not contribute to displacement activity; it is a core concern to increase employment in Wales by at least 16 in consequence of Project activity.

Essential Eligibility Criteria

Business must be within catchment area and meeting the specific objective of : "...Increasing the successful translation of research and innovation processes into new and improved commercial products, processes and services, in particular through Improved technology transfer from HEI's."

The focus will be the 'Grand Challenge' priority areas, (the *Science for Wales* strategy):

- Life sciences and health
- Low carbon, energy and environment
- Advanced engineering and materials,

Contact Details

Caroline Gray
The OpTIC Centre,
Ffordd William Morgan,
St Asaph Business Park,
St Asaph,
LL17 0JD

✉ admincpe@glyndwr.ac.uk



☎ 01745 535232

🔗 www.cpe-wales.org

f [Centre for Photonics Expertise - CPE](#)

🐦 [@theopticcentre](#)

📺 [Centre for Photonics Expertise \(CPE\)](#)



Canolfan Arbenigedd Ffotoneg (CAF)

Disgrifiad

Mae pedair prifysgol yng Nghymru wedi dod ynghyd, fel partneriaid, i gyflawni prosiect tair blynedd o hyd a ariennir gan WEFO/ERDF. Byddant yn cyfuno eu harbenigedd mewn ffotoneg i ddarparu datrysiadau arloesol ar gyfer busnesau yng Ngorllewin Cymru ac ardal y Cymoedd. Bydd yn cynyddu'r gallu ym maes ffotoneg ac yn y tri maes ymchwil a dargedwyd ac yn denu buddsoddiad mewnol sy'n ymwneud â ffotoneg.

Model Cyflawni

Mae'r model cyflenwi yn dibynnu ar gydweithrediad ymchwil a datblygu, ac yn defnyddio'r arbenigedd ymchwil gorau o brifysgolion Glyndŵr, Aberystwyth, Bangor a/neu Brifysgol De Cymru drwy amrediad o brosiectau sydd wedi'u dylunio gan ystyried anghenion y cwmnïau. Nid oes unrhyw gost i'r cwmnïau mewn gwirionedd oherwydd caiff y mewnbnw academaidd ei ddarparu am ddim, o ba bynnag Brifysgol sy'n gallu diwallu'r anghenion hynny orau, ar yr amod bod y cwmni dan sylw yn ymrwymo i roi o'i amser yn yr un modd. Bydd y cysylltiad cychwynnol drwy Reolwr Datblygu Busnes a fydd yn paratoi prosiect posibl.

Cwmpas Daeryddol

Bydd y prosiect yn fuddiol i ardaloedd awdurdod lleol ledled maes rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Targedau Penodol

Bydd 120 o bartneriaid yn cydweithredu mewn prosiectau ymchwil, ac o'r rhain, bydd o leiaf 60 o fentrau yn derbyn cymorth anariannol, (40 yn cael eu cefnogi i gyflwyno cynhyrchion neu brosesau newydd i'r cwmni, 20 yn cael eu cefnogi i gyflwyno cynhyrchion neu brosesau newydd i'r farchnad). Pan na ellir bodloni meini prawf y GAF,

cynigir atgyfeirio'r cwmni at ffynonellau eraill o gymorth - Llywodraeth Cymru, WEFO neu'r sector preifat - a bydd hyn yn cael ei gofnodi. Bydd ystyriaeth arbennig yn cael ei rhoi i sicrhau na fydd y gwaith a wneir yn cyfrannu at weithgareddau affleoledig; un o'r targedau craidd yw cynyddu cyflogaeth yng Nghymru o 16 o leiaf o ganlyniad i weithgareddau'r Prosiect.

Meini Prawf Cymhwyster Hanfodol

Rhaid i fusnes fod o fewn y dalgylch a chan gyflawni'r nod penodol o: "...Gynyddu'r gwaith llwyddiannus o droi prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn benodol trwy drosglwyddo technoleg yn well o sefydliadau addysg uwch."

Bydd y ffocws ar feysydd blaenoriaethol yr 'Her Fawr', (strategaeth *Gwyddoniaeth i Gymru*):

- Gwyddorau bywyd ac iechyd
- Carbon isel, ynni a'r amgylchedd
- Peirianeg uwch a deunyddiau

Manylion Cyswllt

Caroline Gray
Y Ganolfan OpTIC,
Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy,
Llanelwy,
LL17 0JD

✉ admincpe@glyndwr.ac.uk

☎ 01745 535232

🌐 www.cpe-wales.org

📘 [Centre for Photonics Expertise - CPE](#)

🐦 [@theopticcentre](#)

📺 [Centre for Photonics Expertise \(CPE\)](#)